**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: Ymateb CEERA 15/02/21

Mike Hedges AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

15 Mawrth 2021

Annwyl Mike,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Chwefror ynghylch eich gwaith ar iechyd anifeiliaid ac atal clefydau. Mae'r atebion i'r cwestiynau a godwyd i'w gweld isod.

**1. A allwch egluro ai ar lefel y DU yn unig y mae data ar ddefnyddio gwrthfiotigau mewn anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd ar gael? Os felly, pa mor hyderus ydych chi bod y data'n rhoi darlun cywir o'r defnydd yng Nghymru?**

Mae tair lefel o ddata ar ddefnyddio gwrthfiotigau mewn anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd, fel y dangosir yn y tabl isod:

| **Ffynhonnell:** | Darpariaeth: | I'w nodi: |
|---|---|---|
| Data cynhyrchu gwrthfiotigau gwneuthurwyr | Y DU yn unig | • Fe'i cyhoeddir yn flynyddol yn adroddiad VARSS. |
| Data practisau milfeddygol | Cymru yn unig, hyd y gwyddom ni | • Heb ei gyhoeddi eto<br>• Am anifeiliaid a ffermir yn unig.<br>• Gwneir yn wirfoddol, menter gan y ddau Bartner Darparu Milfeddygol yng Nghymru. |
| Data ar lefel fferm | Nod a gofyniad ar gyfer y DU gyfan.<br>Nod Cymru yw arwain o ran sicrhau bod data ar gael | • Un o ofynion yr UE, a nod i Gymru.<br>• Gweithredir ar sail wirfoddol.<br>• Gwahanol sectorau da byw ar wahanol gamau yn hyn o beth, gyda moch a dofednod o flaen defaid a gwartheg.<br>• Lansiodd Cynhyrchwyr Cig Oen a Chig Eidion Cymru, gyda chymorth Cynllun |

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

| | | |
|---|---|---|
| | am gynhyrchwyr defaid a chig eidion. | Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru, system newydd ar gyfer cofnodi ar lefel fferm ar 15fed Chwefror.<br>• Mae systemau eraill ar gael hefyd a gall cynhyrchwyr benderfynu pa system i'w defnyddio, ar sail ystyriaethau masnachol.<br>• Bydd angen i systemau allu cyfrannu at hyb data ac adnodd adrodd ar lefel y DU. |

Mae'r wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd am y defnydd o wrthfiotigau mewn anifeiliaid yn seiliedig ar ddata cyflenwi y gwneuthurwr. Fe'i cyhoeddir yn flynyddol ac mae'n dangos tueddiadau dros amser yn dda. Nid yw'n darparu gwybodaeth am y defnydd yng Nghymru, nac am yr ystod o ddefnydd ar draws ffermydd mewn sector.

Er mwyn bodloni safonau'r UE, bydd angen data am y defnydd o wrthfiotigau ar lefel fferm ar gyfer y DU.
Mae arnom hefyd angen data manwl am y defnydd o wrthfiotigau ar lefel fferm ar gyfer Cymru. Oherwydd mae angen inni ganfod pa mor effeithiol yw'r rhaglen o fesurau yr ydym yn eu rhoi ar waith i atal clefydau mewn anifeiliaid a lleihau'r angen i ddefnyddio gwrthfiotigau mewn ffermio da byw.
Mae'r rhaglen hon wedi'i chynnwys yn ein Cynllun Gweithredu Pum Mlynedd ar gyfer Ymwrthedd Gwrthficrobaidd mewn Anifeiliaid a'r Amgylchedd.

Mae'n ofyniad statudol i ffermwyr gofnodi'r holl feddyginiaethau a ddefnyddir yn eu hanifeiliaid. Fodd bynnag, mae dull gweithredu gwirfoddol yn cael ei ddefnyddio i annog cofnodi data mewn fformat a fydd yn galluogi coladu a dadansoddi.

Mae Cymru'n gwneud cynnydd da o ran darparu data am y defnydd o wrthfiotigau ar lefel fferm am ffermydd defaid a gwartheg – y sectorau sydd â'r mwyaf o waith i'w wneud. Mae'r wybodaeth hon yn angenrheidiol er mwyn mesur ac asesu effeithiolrwydd ein gwaith i atal clefydau a lleihau'r angen i ddefnyddio gwrthfiotigau.

**2. Pa drefniadau sydd ar waith ar lefel Cymru i gasglu a mesur gwybodaeth am ddefnyddio gwrthfiotigau mewn anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd?**

Mae Arwain Vet Cymru (AVC) yn brosiect a ariennir gan y Cynllun Datblygu Gwledig, sy'n ceisio cynyddu stiwardiaeth wrthfiotigau. Gofynnwyd i bractisau fferm neu anifeiliaid cymysg enwebu Hyrwyddwr Presgripsiynu Milfeddygol sydd wedi cwblhau nifer o weithdai hyfforddi.

Roedd rhan o brosiect AVC hefyd yn cynnwys datblygu ymhellach ar waith Cynhyrchwyr Cig Oen a Chig Eidion Cymru yn cipio data meddyginiaeth fferm yn electronig. Lansiwyd y system ar 15fed Chwefror, a bydd yn awr yn casglu data ar lefel fferm. Mae'r swyddogion yn cyfathrebu'n rheolaidd â Chynhyrchwyr Cig Oen a Chig Eidion Cymru i drafod cynnydd ac i ystyried pa bryd y gallai data Cymru fod ar gael i'w ystyried.

Mae trydedd elfen prosiect AVC yn cynnwys mesur data prynu gwrthfiotig cyfanwerthol a meincnodi. Bydd yr wybodaeth hon yn rhan o'r adroddiadau terfynol a gynhyrchir, wrth i'r prosiect ddod i ben.

Mae £4M o gyllid Cynllun Datblygu Gwledig hefyd wedi cael ei ddyfarnu i gefnogi ymdrechion i fynd i'r afael ag ymwrthedd gwrthficrobaidd. Bu Arwain DGC (Defnydd Gwrthfioteg Cyfrifol) yn llwyddiannus yn eu datganiad o ddiddordeb ac fe'u gwahoddwyd i

gyflwyno cais llawn erbyn 5[ed] Mawrth. Bydd hyn yn cyflawni nifer o brosiectau, a fydd yn cyfrannu at ein cynllun pum mlynedd ("Ymwrthedd Gwrthficrobaidd mewn Anifeiliaid a' r Amgylchedd, Cynllun Gweithredu Pum Mlynedd i Gymru 2019-2024"). Wrth baratoi'r Datganiad o Ddiddordeb, sicrhaodd y swyddogion fod pwyslais ar allbynnau/canlyniadau mesuradwy a gwerthusiad terfynol. Bydd hyn yn cynhyrchu llawer iawn o ddata/ffigurau gwerthfawr sy'n benodol i Gymru.

Gall cynhyrchwyr moch a dofednod yng Nghymru gofnodi eu defnydd o wrthfiotigau ar systemau Prydain gyfan a reolir gan y Bwrdd Datblygu Amaethyddol a Garddwriaethol.

Ein nod yw gallu mesur y defnydd o wrthfiotigau mewn anifeiliaid yng Nghymru, fel y gallwn asesu effeithiolrwydd gwaith i leihau'r defnydd drwy gadw anifeiliaid yn iach (er enghraifft drwy gynllunio iechyd anifeiliaid a bioddiogelwch da). Er gwaethaf yr ymdrechion hyn, fodd bynnag, bydd angen o hyd i drin anifeiliaid sy'n cael heintiau bacterol, na ellir eu rhagweld na'u hatal. Nid ein nod, felly, yw lleihau'r defnydd i sero.

**3. Pa waith sydd wedi cael ei wneud hyd yma i ddiffinio targed 2025 (fel y'i nodir yng nghynllun gweithredu cenedlaethol pum mlynedd y DU, *Tackling antimicrobial resistance 2019-2024*)) a phryd fydd y targed newydd ar waith?**

Mae Cynllun Gweithredu Cymru ar Anifeiliaid a'r Amgylchedd yn nodi'r prif nodau ar gyfer gweithredu dros gyfnod o bum mlynedd (2019-2023). Mae ein cynllun ni yn rhan o Gynllun Gweithredu Cenedlaethol 5 mlynedd y DU ar ymwrthedd gwrthficrobaidd ac yn cyfrannu ato. Nid ydym yn adlewyrchu holl weithgareddau cynllun y DU yma – er enghraifft, mae'n well sefydlu llwybrau datblygu cyffuriau newydd ac ymgysylltu rhyngwladol ar lefel y DU. Yn hytrach, rydym yn manteisio ar ein cryfderau drwy ddefnyddio ein perthynas dda â milfeddygon a ffermwyr a'n Cynllun Datblygu Gwledig i wella'r gwaith o atal clefydau heintus mewn anifeiliaid a sicrhau'r safonau gorau posibl o ran stiwardiaeth wrthfiotigau.

Nid yw Cynllun Gweithredu Cymru yn cael ei yrru gan gyfres o dargedau sydd wedi'u diffinio ymlaen llaw ar leihau'r defnydd o wrthfiotigau. Roeddem ni'n credu, ac mae ymchwil wedi dangos, bod mynd at y nod drwy godi safonau iechyd yn ffordd fwy effeithiol o leihau defnydd yn hytrach na gosod targedau amser sy'n gallu bod yn fympwyol.

(https://www.frontiersin.org/articles/10.3389/fvets.2020.00524/full).

Rydym wedi ystyried sefyllfa Cymru, gan fanteisio ar ein cryfderau a mynd ymhellach mewn meysydd fel lleihau'r angen i ddefnyddio gwrthfiotigau drwy heintio, atal a rheoli, a gwella'r ffordd rydym yn defnyddio gwrthfiotigau pan fo gofyn drwy well stiwardiaeth. Er nad yw ein dull gweithredu'n seiliedig ar dargedau, rydym yn cydnabod bod gan dargedau ran i'w chwarae o ran hoelio sylw ar fater ac rydym yn cefnogi'r ymdrechion yn hyn o beth.

Lansiwyd Tasglu Targedau Defnydd Cyfrifol o Feddyginiaethau mewn Amaethyddiaeth (RUMA) yn 2016 gyda'r nod o osod targedau penodol i'r sector. Gosodwyd targedau cychwynnol ar gyfer 2017-2020. Cafodd targedau ar gyfer y pedair blynedd nesaf eu cyhoeddi ar 18 Tachwedd 2020.

Mae'r swyddogion wedi gweithio'n agos gyda RUMA ac maent yn parhau i wneud hynny. Cyfrannodd cynrychiolydd o'r Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid a'r Grŵp Cyflawni Ymwrthedd Gwrthficrobaidd mewn Anifeiliaid a'r Amgylchedd hefyd at drafodaethau, a darparodd adborth ysgrifenedig, wrth benderfynu ar y targedau sector-benodol ar gyfer y cyfnod nesaf o bedair blynedd. Rhoddodd Prif Swyddog Milfeddygol Cymru gyflwyniad yng Nghynhadledd RUMA 2017, "Ymwrthedd Gwrthficrobaidd-Wynebu'r Her".

Mae hefyd yn werth nodi'r adroddiad VARSS diweddaraf (a gyhoeddwyd ar 18 Tachwedd), sy'n dangos mai'r DU yw'r 5ed defnyddiwr isaf o wrthfiotigau mewn anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd yn Ewrop.

**4. A allwch egluro a yw'r rheoliadau uchod wedi dod yn gyfraith yr UE a ddargedwir ac a fyddant felly'n berthnasol yn y DU? Os na fyddant, pa ystyriaeth sydd wedi'i rhoi i ddeddfu i gyflwyno mesurau tebyg yn y DU?**

Bydd y ddau Reoliad gan yr UE ar fwyd meddyginiaethol a chynhyrchion meddyginiaethol milfeddygol (Rheoliadau'r UE 2019/4 a 2019/6, yn y drefn honno) yn berthnasol yn yr UE o 28 Ionawr 2022 ymlaen. Gan nad oedd y ddau Reoliad UE hyn yn berthnasol tan ar ôl y Cyfnod Pontio, nid ydynt wedi dod yn ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir ac, felly, ni fyddant yn berthnasol ym Mhrydain Fawr. Oherwydd Protocol Gogledd Iwerddon, bydd Rheoliadau'r UE yn uniongyrchol berthnasol yng Ngogledd Iwerddon o 28 Ionawr 2022 ymlaen.

Chwaraeodd y Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Filfeddygol, un o asiantaethau DU gyfan Defra, ran bwysig yn ystod y trafodaethau ar Reoliadau'r UE 2019/4 a 2019/6 ac mae llawer o newidiadau'n ddymunol o safbwynt polisi'r DU. Mae'r Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Filfeddygol yn ystyried gweithredu darpariaethau tebyg i'r rhai yn nau Reoliad yr UE ym Mhrydain Fawr, gan gynnwys y darpariaethau hynny sy'n annog defnyddio cyffuriau gwrthficrobaidd yn gyfrifol. Bydd unrhyw newidiadau i Reoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol 2013 fel y byddant yn effeithio ar Brydain Fawr yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol er mwyn i randdeiliaid allu rhoi eu barn ar y newidiadau arfaethedig.

**5. A allwch egluro pam nad yw prosiect dileu'r clafr wedi'i sefydlu eto a sut y mae cyllid ar gyfer y prosiect wedi'i ailgyfeirio?**

Ym mis Ionawr 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddyraniad o £5 miliwn o'r Cynllun Datblygu Gwledig i sefydlu prosiect dan arweiniad y diwydiant i helpu i ddileu'r clafr ar ffermydd yng Nghymru.

Cyhoeddwyd tendr a oedd yn cynnwys nodau ac amcanion manwl ac roedd wedi cyrraedd y cam o ddewis cais Mynegi Diddordeb da i fwrw ymlaen ag ef.

Fodd bynnag, gyda dyfodiad pandemig COVID-19 a'r ail-flaenoriaethu cyllid yn sgil hynny, ni fu'n bosibl cynnwys hyn yng nghynlluniau cyllido'r Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer 2020. Roedd y cyfyngiadau a oedd yn gysylltiedig â Covid-19 yn 2020 hefyd yn golygu na fyddai wedi bod yn bosibl rhoi'r prosiect ar waith y llynedd.

**6. A allwch gadarnhau ei bod yn dal yn fwriad gennych sefydlu'r prosiect a darparu amserlen ddangosol ar gyfer hyn?'**

Rydym yn dal i fwriadu bwrw ymlaen â'r gofyniad a'i ystyried ar gyfer Cynllun Datblygu Gwledig Cymru yn y dyfodol ond ni allwn roi unrhyw sicrwydd ynghylch y posibilrwydd o gyllid newydd a phenodol ar hyn o bryd.

Cydnabyddir bod angen i'r diwydiant defaid wella'r ffordd y rheolir y clafr y gaeaf hwn ac, o'r herwydd, nid yw gwneud dim yn opsiwn. Felly, rydym yn:

6.1 Cyllido prosiect peilot ar raddfa fach hyd at ddiwedd mis Mawrth 2021 i dreialu a phrofi dulliau arloesol a newydd o reoli'r clafr, sy'n cynnwys:

- sefydlu grŵp lleol wedi'i hwyluso o ffermwyr yr effeithiwyd arnynt i gael gwared ag achosion o'r clafr a ganfyddir – perchnogaeth leol dros y broblem gyda'r cymorth a'r gefnogaeth angenrheidiol;

- defnyddio prawf gwaed i ganfod clafr defaid mewn diadellau y bernir eu bod 'mewn perygl';
- trin y defaid yr effeithiwyd arnynt yn ddiogel er mwyn cael gwared â'r haint o'r ddiadell.

6.2 Cynnig profion clafr am ddim yng Nghymru (drwy APHA) y gaeaf hwn (1af Tachwedd 2020 i 31ain Mawrth 2021) i godi ymwybyddiaeth ac i helpu ffermwyr a milfeddygon i gael diagnosis cywir, y gallai dileu llwyddiannus gael ei seilio arno.

**7. A allwch egluro pa drefniadau sydd ar waith i roi gwybod i geidwaid adar yng Nghymru am ddatblygiadau sy'n mynd rhagddynt o ran Ffliw Adar?**

Rydym wedi bod yn cyfathrebu â cheidwaid adar yng Nghymru, a byddwn yn parhau i wneud hynny, ynghylch y sefyllfa gyffredinol o ran y clefyd a'r datblygiadau, drwy nifer o lwybrau, fel yr amlinellir isod.

Rydym wedi bod yn diweddaru ein tudalennau gwe ffliw adar yn rheolaidd ar www.llyw.cymru/ffliw-adar, lle gall ceidwaid ddod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf am achosion yng Nghymru a gweddill Prydain, y mesurau atal clefyd gorfodol sydd ar waith ar hyn o bryd, sef ein Parth Atal Ffliw Adar, yn ogystal â chanllawiau ar sut i ddilyn y mesurau hyn, er mwyn diogelu iechyd eu hadar.

Ar ben hynny, rydym yn cyhoeddi diweddariadau rheolaidd ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn cysylltu'n aml â rhanddeiliaid sy'n lledaenu gwybodaeth a negeseuon allweddol ymysg eu cydweithwyr a'u haelodau. Rydym yn cael ein cynrychioli ar Grŵp Craidd Rhanddeiliaid ehangach Prydain ar Glefydau Adar Hysbysadwy, sy'n darparu fforwm inni drafod pryderon ehangach am glefydau, ac yn caniatáu i faterion sy'n wynebu'r diwydiant a cheidwaid gael eu codi a'u datrys.

Mae datganiadau i'r wasg a datganiadau Gweinidogol yn cael eu defnyddio i gefnogi a chodi ymwybyddiaeth o ddatblygiadau allweddol, fel rhoi'r Parth Atal Ffliw Adar ar waith.

Pan gaiff y clefyd ei gadarnhau, mae'r mesurau hyn yn cael eu cynyddu ymhellach, er mwyn sicrhau cyfathrebu ar unwaith â'r darparwyr a'r partneriaid hynny y mae canfyddiad y clefyd yn effeithio arnynt, ac y mae'n ofynnol iddynt weithredu'n gyflym. Yn y canfyddiad H5N8 a gadarnhawyd yn ddiweddar mewn safle ar Ynys Môn, cadarnhawyd y clefyd yn hwyr gyda'r nos ar 27ain Ionawr, a chymerwyd pob cam i gyhoeddi'r datganiad ar-lein i gadarnhau'r clefyd, a'r parthau rheoli clefyd dilynol, o fewn awr i'w gadarnhau. Cafodd hyn ei gyfleu ar unwaith i randdeiliaid yng Nghymru ac i awdurdodau lleol yr effeithir arnynt drwy e-bost. Cyhoeddwyd hysbysiadau ar gyfryngau cymdeithasol Llywodraeth Cymru a Phrif Swyddog Milfeddygol Cymru a negeseuon torfol gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yr un noson i roi gwybod i geidwaid am y clefyd.

Fel trydedd wlad, a'r gofynion gwyliadwriaeth ychwanegol a osodwyd arnom at ddibenion masnach, ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at bob cartref a busnes o fewn radiws o 10km i'r safle heintiedig ar Ynys Môn (y Parth Gwyliadwriaeth), gan dynnu sylw at y ffaith bod ffliw adar wedi cael ei chanfod yn eu hardal ac yn gofyn i bob ceidwad gofrestru ar Gofrestr Dofednod Prydain. O ran y ceidwaid hynny sydd wedi cofrestru ar Gofrestr Dofednod Prydain, maent hefyd yn cael gwybod yn awtomatig am risg o'r clefyd. Mae cofrestru'n orfodol ar gyfer ceidwaid 50 neu fwy o adar, ond mae croeso i unrhyw un sy'n cadw llai na hyn o adar gofrestru ac fe'u hanogir i wneud hynny. Bydd cofrestru pob ceidwad yn ein galluogi i gyrraedd mwy o geidwaid yn rhwydd, ac mae ymgyrch fyw wedi'i lansio ar gyfryngau cymdeithasol ynghylch Cofrestr Dofednod Prydain a'r manteision a geir o ran cyfathrebu'n gyflym i helpu ceidwaid i ddiogelu iechyd eu hadar.

**8. Beth yw'r heriau o ran cyfathrebu â phobl sy'n cadw haid fach yn yr iard gefn neu'r rheini sy'n cadw adar fel anifeiliaid anwes, a sut ydych chi'n gweithio i oresgyn y rhain?**

Rydyn ni'n wynebu rhai heriau wrth gyfathrebu â cheidwaid iard gefn a'r rheini sy'n cadw adar anwes. Nid oes gan lawer o'r ceidwaid bach, iard gefn neu geidwaid adar anwes hyn unrhyw gysylltiad ag unrhyw gyrff yn y diwydiant, undebau na grwpiau rhanddeiliaid eraill yr ydym yn cysylltu â nhw, sy'n ffordd allweddol o ddosbarthu gwybodaeth. Hefyd, mae gan lawer o'r ceidwaid hyn lai na 50 o adar, sy'n golygu nad yw'r gyfraith yn mynnu eu bod yn eu cofrestru. Os bydd ceidwaid yn cofrestru eu hadar yn wirfoddol ar Gofrestr Dofednod Prydain, byddant yn derbyn gohebiaeth uniongyrchol a chyfredol gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, a fydd yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa'r clefyd ym Mhrydain Fawr.  Rydym yn manteisio ar gyfleoedd rheolaidd, gan gynnwys ymgyrch ddiweddar ar gyfryngau cymdeithasol, i godi ymwybyddiaeth o'r gofrestr ddofednod ac yn mynd ati'n frwd i annog pob ceidwad, waeth faint o adar sy'n cael eu cadw, i gofrestru.

Ers y cyntaf o'r achosion ym mis Tachwedd 2020, rydym hefyd wedi bod yn gweithio'n agos gyda'n cydweithwyr yn yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion a'r gweinyddiaethau eraill i sicrhau ein bod yn lledaenu negeseuon pwysig yn rheolaidd drwy hysbysiadau yn y wasg ac ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol. Rydyn ni'n credu bod y gwaith cyfathrebu hwn ar y cyd, a'n hymgyrch cyfryngau cymdeithasol barhaus, wedi gallu cyrraedd cyfran dda o geidwaid adar ledled Cymru a Phrydain Fawr yn ehangach.

**9. A allwch nodi eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol o ran dileu BVD, gan gynnwys cynigion i gyflwyno sgrinio gorfodol?**

Roedd Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid yn cydnabod bod rheoli BVD yn flaenoriaeth i ddiwydiant Cymru ac yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r cynllun hwn i Gymru sy'n cael ei arwain gan y diwydiant – **Gwaredu BVD**. Sicrhaodd y cynllun gyllid o £9m gan Raglen Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-20. Mae'r cynllun yn llwyddiant ac ers ei lansio yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru yn 2017, mae dros 8,000 o fuchesi ledled Cymru wedi cael eu sgrinio am y clefyd.  Rydym bellach yn nhrydedd flwyddyn y cyfnod gwirfoddol. Mae Gwaredu BVD wrthi'n gwneud cais am estyniad pellach i'r cyfnod gwirfoddol y tu hwnt i 31ain Mawrth 2021.

Byddai'r diwydiant, gan gynnwys Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid, yn hoffi gweld deddfwriaeth yn ei lle i ddisodli'r Cyfnod gwirfoddol (1af Ebrill 2021) ar unwaith, ac mae wedi cyflwyno tystiolaeth yn ddiweddar i gefnogi'r cynnig i symud i ddulliau rheoli gorfodol sy'n cael eu rheoleiddio. Mae hyn yn cael ei adolygu a'i drafod ar hyn o bryd gyda rheolwyr prosiect Gwaredu BVD, lle mae swyddogion wedi gofyn am ragor o eglurder neu ystyriaeth i elfennau penodol o'r cynnig.  Gan fod ymadael â'r UE a phandemig COVID-19 yn cael blaenoriaeth ar yr amserlen ddeddfwriaethol, ni fydd yn bosibl cyflwyno deddfwriaeth erbyn 1 Ebrill 2021.  Mae angen gwaith gan y diwydiant i ystyried sut y gellir rheoli unrhyw fwlch rhwng cyfnod gwirfoddol a chyfnod deddfwriaethol. Credir mai'r dyddiad cynharaf posibl i ddechrau drafftio deddfwriaeth yw hydref 2021.

**10. A allwch roi barn am lefel bresennol y buddsoddiad yn system arolygu iechyd anifeiliaid y DU a'r angen i gynyddu'r buddsoddiad yn awr gan fod y DU wedi gadael yr UE?**

Mae gan y DU system ardderchog i gadw golwg ar fygythiadau i iechyd anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd sy'n dod o anifeiliaid.  Gellir rhannu'r system yn fras yn arfau gwyliadwriaeth WEITHREDOL a GODDEFOL (neu sganio).  Mae gwyliadwriaeth weithredol yn weithgarwch "o'r brig i lawr" i bennu presenoldeb neu nifer yr achosion, er enghraifft arolygon ar gyfer salmonela mewn heidiau sy'n cynhyrchu wyau neu facteria MMR mewn

anifeiliaid mewn lladd-dai. Ystyr gwyliadwriaeth oddefol yw casgliad systematig o ganfyddiadau o ymchwiliadau diagnostig i glefydau, sy'n cynnwys ceidwaid, eu milfeddyg a'r labordy diagnostig. Mae llawer o wyliadwriaeth weithredol yn ofyniad statudol. Nid yw gofynion goruchwylio goddefol yn tueddu i gael eu pennu gan ddeddfwriaeth ond maent yn rhan hanfodol o reoli risg.

Nid yw gwyliadwriaeth yn ceisio canfod pob bygythiad posibl i bob anifail neu fferm ac ni allai wneud hynny – byddai'n amhosibl. Felly mae'n rhaid dosrannu gweithgarwch ac adnoddau yn ôl graddfa'r bygythiadau tebygol, gan gynnwys canfod y rhai na chânt byth eu gwireddu efallai, ond a fyddai'n drychinebus pe baent yn ymddangos. Er enghraifft, rhaid inni bob amser allu canfod, cyn gynted â phosibl, yr achos cyntaf o glwy'r traed a'r genau, petai'n dod i mewn i Gymru eto.

Mae i'r gwahanol ganghennau gwyliadwriaeth gyllidebau gwahanol – yn gyffredinol iawn, mae cyllidebau gwyliadwriaeth weithredol wedi'u datganoli, ond nid felly gyllidebau gwyliadwriaeth oddefol (caiff yr olaf eu rheoli gan Defra ar ran Cymru a Lloegr). Darperir llawer o gost gwyliadwriaeth oddefol gan geidwaid a milfeddygon, drwy wasanaethau diagnostig y telir amdanynt. Mae archwiliadau *post mortem*, fodd bynnag, yn cael llawer o gymhorthdal oherwydd eu pwysigrwydd diagnostig ac anallu'r farchnad i dalu'r gost lawn.

Mae Fforwm Gwyliadwriaeth y DU yn darparu trosolwg barhaus o'r anghenion gwyliadwriaeth, ac mae Prif Swyddog Milfeddygol a Dirprwy Brif Swyddog Milfeddygol Cymru yn eistedd ar y Fforwm. Ar hyn o bryd, mae gan system wyliadwriaeth y DU a Chymru ddigon o adnoddau, yn ein barn ni.

Mae gadael yr UE yn rhoi'r cyfrifoldeb ar y DU i lunio ein polisi mewnforio ein hunain a'r potensial i wella bioddiogelwch cenedlaethol. Mae llawer o waith yn cael ei wneud ar hyn. Felly, ar hyn o bryd, nid ydym yn gweld angen uniongyrchol i gynyddu'r gweithgarwch gwyliadwriaeth ar sail risgiau uwch o ganlyniad i ymadael â'r UE.

Mae'n debygol y bydd statws newydd y DU fel gwlad sy'n allforio o ran yr UE a gweddill y byd yn dylanwadu ar allu a chapasiti ein system gwyliadwriaeth. Er enghraifft, bydd yn ofynnol i ni gynnal gwyliadwriaeth ddwysach am nifer o glefydau a restrir er mwyn allforio anifeiliaid, plasm cenhedlu a chynnyrch anifeiliaid i'r UE.
Mae'n ofynnol hefyd i geidwaid anifeiliaid roi gwybod i filfeddyg am bob achos o gyfraddau afiechyd neu farwolaeth uwch er mwyn ymchwilio iddynt.

Nid yw union oblygiadau'r newidiadau hyn o ran adnoddau wedi cael eu pennu eto.

Yn olaf, darparodd yr UE rywfaint o gyllid i'n rhaglen TB mewn gwartheg, sy'n cynnwys yr wyliadwriaeth a ddarparwyd drwy brofi gwartheg am y clefyd. Mae'r drefn flynyddol o brofi am TB yn holl fuchesi gwartheg Cymru yn gonglfaen yn ein Rhaglen Ddileu a bydd yn parhau i gael blaenoriaeth, er gwaethaf colli cyllid yr UE wrth symud ymlaen.

**11. A allwch amlinellu'r strwythurau sydd ar waith, neu a gaiff eu rhoi ar waith, i sicrhau cydweithio a chydweithredu parhaus rhwng y DU a'r UE yng nghyswllt gwyliadwriaeth iechyd anifeiliaid, gan gynnwys hysbysu am glefydau?**

Un o ganlyniadau negyddol gadael yr UE fu colli labordai cyfeirio'r UE a oedd wedi'u lleoli yn y DU, er enghraifft ar gyfer ffliw adar yn yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yn Weybridge, Surrey. Mae perthnasoedd cydweithredol, arbenigedd a rennir a mynediad at ddeunyddiau a thechnegau diagnostig a ddarperir gan y labordai cyfeirio hyn yn bwysig iawn i'r DU ac i Gymru. Mae eu colli yn peri pryder mawr i ni.

Rydym yn annog yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion i fanteisio ar bob cyfle posibl arall i'w gwyddonwyr gydweithio â'r rheini ar dir mawr Ewrop. Mae hyn yn rhywbeth y maen

nhw eu hunain am ei wneud ac maent yn mynd ar ei drywydd yn egnïol, gyda'n cefnogaeth lwyr. Er enghraifft, fe'n calonogwyd yn ddiweddar i gymryd rhan mewn cydweithrediad ledled Ewrop, dan arweiniad yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, ar wella'r rheolaeth ar filheintiau.

Rydym yn parhau i lobïo Llywodraeth y DU i alluogi milfeddygon llywodraeth i gydweithio, er enghraifft drwy wrthdroi ei phenderfyniad di-fudd sy'n golygu na all milfeddygon llywodraeth y DU gymryd rhan yn y cyrsiau "Hyfforddiant Gwell ar gyfer Bwyd Mwy Diogel" rhagorol a gefnogir gan yr UE.

**12. A allwch nodi pa waith sydd wedi'i wneud i adolygu effeithiolrwydd y rheol Gwahardd Symud am Chwe Diwrnod ers iddi gael ei chyflwyno gyntaf yn 2001? A;**

**13. Pa ystyriaeth ydych chi wedi'i rhoi i adolygu'r rheol Gwahardd Symud am Chwe Diwrnod?**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddiogelu iechyd anifeiliaid Cymru a busnesau ffermwyr Cymru drwy atal clefydau'n effeithiol.

Mae'r rheol Gwahardd Symud am Chwe Diwrnod yn parhau i fod yn ddull effeithiol o leihau'r risg i glefydau heintus, fel Clwy'r Traed a'r Genau, ledaenu'n gyflym ledled Cymru a Phrydain Fawr.

Mae effeithiolrwydd y rheol Gwahardd Symud am Chwe Diwrnod yn cael ei adolygu a'i werthuso'n barhaus. Mae hyn yn seiliedig ar ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r gymuned ffermio, dadansoddi bygythiadau o glefydau posibl, iechyd y fuches/ddiadell genedlaethol a'r safonau bioddiogelwch sy'n cael eu cynnal ar ffermydd yng Nghymru.

Nid oes cynlluniau ar hyn o bryd i gynnal adolygiad ffurfiol pellach o'r rheol Gwahardd Symud am Chwe Diwrnod yng Nghymru.

Mewn ymateb i argymhelliad 33 o Adroddiad Hwyluso'r Drefn, lle nodwyd y gallai'r rheol Gwahardd Symud am Chwe Diwrnod fod yn gymhleth ac achosi oedi i'r Diwydiant, roedd yn rhaid mynd i'r afael â'r cymhlethdodau hyn a'u datrys drwy i Lywodraeth Cymru a'r diwydiant ffermio weithio gyda'i gilydd. Yn dilyn datblygu parhaus gyda'r diwydiant, lansiwyd y cynllun Uned Gwarantîn yn 2017. Roedd hyn yn disodli'r trefniant cyfleusterau ynysu blaenorol ac fe'i cynlluniwyd i ddarparu eithriad dewisol i'r rheol Gwahardd Symud am Chwe Diwrnod i ffermwyr sy'n symud anifeiliaid i nifer o sioeau amaethyddol neu'n dod â da byw newydd i'w ffermydd. Mae cadw anifeiliaid yn yr uned gwarantin i gwblhau Gwaharddiad Symud am Chwe Diwrnod yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ffermwyr gan ganiatáu symud o'r prif ddaliad, ar yr un pryd â helpu i atal clefydau rhag lledaenu.

**14. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu'r argymhellion a wnaed yn dilyn yr adolygiad cerrig milltir o unedau cwarantîn?**

Cynhyrchodd yr Adolygiad Cerrig Milltir o'r cynllun Unedau Cwarantîn yn 2018 naw argymhelliad i'w harchwilio, gyda'r nod o wneud Unedau Cwarantîn yn haws eu cael a'u cynnal. Roedd yr argymhellion hyn yn seiliedig ar farn a phrofiadau ffermwyr, cymdeithasau sioeau ac aelodau eraill o'r gymuned amaethyddol.

Rhwng 2019 a 2020, archwiliwyd argymhellion yr Adolygiad Cerrig Milltir ac mae'r newidiadau canlynol wedi cael eu rhoi ar waith:

- Adolygwyd y Canllawiau Unedau Cwarantîn ar gyfer Ceidwaid Da Byw er mwyn symleiddio ac egluro'r gofynion cwarantîn, y rheolau profi TB a sut mae'r arolygwyr yn asesu ffiniau unedau cwarantîn.

- Mae’r broses ail-ardystio wedi cael ei hadolygu i leihau’r baich gweinyddol ar ffermwyr a dileu’r angen i gyflwyno ceisiadau newydd am unedau cwarantîn wrth wneud cais am ail-ardystio.
- Rydym yn parhau i gasglu data symudiadau blynyddol ar gyfer nifer y gwartheg, defaid a geifr sy’n cael eu symud o Ddaliadau yng Nghymru i sioeau amaethyddol. Mae hyn er mwyn helpu i ganfod unrhyw dueddiadau o ran y niferoedd sy’n mynd i sioeau yn y blynyddoedd blaenorol ac ar ôl cyflwyno unedau cwarantîn.
- Mae’r cyfathrebu yn ymwneud â’r cynllun Unedau Cwarantîn wedi cael ei gryfhau. Mae’n cynnwys: tudalennau gwe wedi’u diweddaru gyda gwybodaeth am swyddogaeth a rhesymeg y cynllun, ffilm hyrwyddo, tynnu sylw at y camau y mae angen eu cymryd i gynnal uned gwarantîn a phamffledi ar fanteision cymryd rhan yn y cynllun.

**15. A allwch egluro a oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau pellach i weithio gyda’r diwydiant i hyrwyddo manteision unedau cwarantîn a chynyddu’r nifer sy’n eu defnyddio?**

Bwriad y cynllun Unedau Cwarantîn yw cynnig cydbwysedd rhwng symud anifeiliaid yn hyblyg a bioddiogelwch effeithiol. Byddem yn annog pob ffermwr sy’n credu y gallai elwa o fod yn berchen ar uned gwarantîn i gymryd rhan yn y cynllun a’i fanteision.

Mae amgylchiadau digynsail y pandemig COVID-19 presennol wedi arwain at ganslo sioeau amaethyddol yn 2020 a 2021, sydd yn anochel wedi effeithio ar nifer y rhai sy’n sefydlu unedau cwarantîn. Er gwaethaf hyn, byddwn yn parhau i hyrwyddo unedau cwarantîn a’r hyblygrwydd y maent yn ei roi i geidwaid pan fydd tymor y sioeau amaethyddol yn dychwelyd ac yn gweithio gyda rhanddeiliaid i barhau i adolygu’r cynllun yn barhaus.

Yn olaf, hoffwn nodi bod cronni stoc sy’n dod i mewn yn arfer da o ran bioddiogelwch beth bynnag, fel rhan o gynllun iechyd fferm. Mae diogelu’r boblogaeth da byw breswyl rhag y risg o gyflwyno clefydau drwy gyswllt ag anifeiliaid newydd yn cyd-fynd ag un o egwyddorion allweddol ein fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid: mae atal yn well na gwella.

Cofion,

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs